**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /**

**WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON**

**19.10.01**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

# OPIN-2001-0041 Ymchwiliad i Glwy'r Traed a'r Genau/Foot and Mouth Public Inquiry

19 Oct 2001 Raised by Jocelyn Davies, Elin Jones

No Subscribers

*Ymchwiliad i Glwy'r Traed a'r Genau*

*Yng ngoleuni gwrthodiad parhaus Llywodraeth y DU i gynnal ymchwiliad cyhoeddus llawn i Glwy'r Traed a'r Genau, dylai'r Cynulliad Cenedlaethol hwn gynnal ymchwiliad llawn i'r achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yng Nghymru.*

*Foot and Mouth Public Inquiry*

*In light of the UK Government's continued refusal to hold a full public inquiry into Foot and Mouth, this National Assembly should hold a full inquiry into the Foot and Mouth outbreak in Wales.*

# OPIN-2001-0042 Ehangu mynediad i Dir Gofal/Broadening Access to Tir Gofal

19 Oct 2001 Raised by Glyn Davies, Peter Rogers

No Subscribers

*Ehangu mynediad i Dir Gofal*

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn cydnabod y cyfraniad unigryw i stiwardiaeth amgylcheddol a datblygu gwledig a wnaed gan y cynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal, ac mae'n galw ar lywodraeth glymblaid y Cynulliad i godi'r cyllid i lefel a fydd yn sicrhau y bydd pawb yn gallu manteisio ar Dir Gofal.*

*Broadening Access to Tir Gofal*

*This Assembly recognises the unique contribution to environmental stewardship and rural development made by the Tir Gofal agri-environment scheme, and calls on the Assembly coalition to increase funding to a level that will make Tir Gofal accessible to all.*

## OPIN-2001-0043 Afghanistan

22 Oct 2001 Raised by Ieuan Wyn Jones

No Subscribers

*Afghanistan*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi rhybudd y Cenhedloedd Unedig y gall argyfwng dyngarol godi yn Afghanistan a chred yr asiantaethau cymorth yng Nghymru fod yr anghydfod presennol yn rhwystro cymorth effeithiol rhag cael ei gynnig i'r ardal; yn credu na ellir ateb dioddefaint y diniwed yn UDA drwy fomio a pheri newyn i ddioddefwyr sydd yr un mor ddiniwed yn Afghanistan; yn galw ar y Prif Weinidog i gwrdd â chynrychiolwyr yr asiantaethau cymorth yng Nghymru ac sy'n gweithio yn yr ardal ac yn cefnogi'u galwad i atal y bomio fel y gellir cynnig cymorth i'r anghenus.*

*Afghanistan*

*The NafW notes the UN warning of a humanitarian crisis unfolding in Afghanistan and the belief of relief agencies in Wales that the current conflict prevents effective aid being delivered to the region; believes that the suffering of innocent victims in the US cannot be answered by the bombing and starvation of equally innocent victims in Afghanistan; calls on the First Minister to meet representatives of the aid agencies in Wales operating in the region and support their call to halt the bombing so that aid can be delivered to those in need.*